

Meudwy – un anwastad!

“Ynglŷn â chariad at eich gilydd, nid oes arnoch angen i neb ysgrifennu atoch; oherwydd yr ydych chiwi eich hunain wedi eich dysgu gan Dduw i garu eich gilydd.” (adn. 9)

Beth am ddarlenn 1 Thesalonïaidd 4:1–12 ac yna myfyrio

Ddoe, fe nodwyd fod yna bum ffordd yn gyffredinol y mae pobl yn eu defnyddio i feithrin perthynas â'i gilydd. Y cyntaf, fel y nodwyd, yw'r ymdrech i lywodraethu ar eraill. Yr ail yw i geisio encilio oddi wrth bobl eraill. Dyma ben arall y pendil. Os na lwyddwn i lywodraethu, yna yr ydym am bellhau ac encilio. Ond a yw'n bosibl i osgoi perthynas â phobl a chilio i'n cragen heb i hyn effeithio arnom? Dim o gwbl.

Mae'n debyg fod y rheswm gwaelodol dros swildod yn ymdrech i beidio cael eich gwrthod. Yn fynych, mae yn agwedd sydd yn cael ei gyrru gan ofn, ofn pobl eraill. Mae yna rai eraill sydd yn sefyll o'r neilltu oherwydd eu bod yn teimlo yn llai o bobl nag eraill o'u cwmpas. Mae yna eraill sydd yn encilio oherwydd eu bod yn teimlo'n well nag eraill o'u cwmpas. Fe'n crewyd ar gyfer perthynas, perthynas â Duw, a pherthynas â'n gilydd.

Mae unrhyw ymdrech i fyw ar wahân i bobl yn dod ag anawsterau i'n personoliaeth. Yr ydych yn torri cyfraith perthynas i'r un graddau wrth geisio llywodraethu ac wrth geisio encilio. Mae'r rhai hynny sydd wedi cael mynediad i deyrnas Dduw yn cael gorchymyn i garu ei gilydd. Os nad yw encilio yn gweithio, yna, yn sicr ni fydd y drydedd agwedd yn gweithio ychwaith, bod yn ddi-hid o eraill. Mae yn amhosibl i gynnal yr arfer yma. Fe fyddwch yn profi pob math o rwystredigaeth. Mae bod yn ddi-hid yn wiriondeb, yn wir yn bechod. Fe fyddwch yn darganfod yn fuan fod pobl yn ddi-hid ohonoch chi.

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Luc 16:19–31; 18:9–14

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Ym mha ffordd y mae'r gŵr goludog yn feudwy?
2. Ym mha ffordd yr oedd y Phariseaidd yn encilio oddi wrth bobl?

Gweddi

O Dad, rwy'n gweld na allaf ddianc oddi wrth gariad at ein gilydd oherwydd y mae hyn wedi ei adeiladu i mewn i reolau dy fydysawd di. Cynorthwya fi i ymdrechu, â'r grym yr wyt ti yn ei roi drwy'r Ysbryd Glân, i ddwyn pawb sydd o fewn cylch fy adnabyddiaeth o fewn cylch fy nghariad. Amen.